***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, Paragraff 40. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 2

# TELERAU CYTUNDEBAU CARTREFI SYMUDOL

## RHAN 1

## TELERAU A YMHLYGIR GAN Y DDEDDF

### PENNOD 4

### CYTUNDEBAU SY'N YMWNEUD Â LLEINIAU PARHAOL AR SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR

*Terfynu*

40 (1) Mae gan y perchennog hawl i derfynu'r cytundeb ar unwaith—

(a) os bydd tribiwnlys, ar gais y perchennog, wedi penderfynu bod y cartref symudol, o roi sylw i'w gyflwr, yn creu effaith andwyol ar amwynder y safle, a

(b) wedyn, ar gais y perchennog, os bydd y corff barnwrol priodol, o roi sylw i benderfyniad y tribiwnlys ac i unrhyw amgylchiadau eraill, o'r farn ei bod yn rhesymol terfynu'r cytundeb.

(2) Mae is-baragraffau (3) a (4) yn gymwys, ar gais i'r tribiwnlys o dan is-baragraff (1)(a)—

(a) os bydd y tribiwnlys o'r farn, o roi sylw i gyflwr presennol y cartref symudol, ei fod yn creu effaith andwyol ar amwynder y safle, ond

(b) ei fod o'r farn hefyd y byddai'n rhesymol ymarferol i waith trwsio penodol gael ei wneud ar y cartref symudol a fyddai'n golygu na châi'r cartref symudol yr effaith andwyol honno, ac

(c) os bydd y meddiannydd yn mynegi i'r tribiwnlys fod y meddiannydd yn bwriadu gwneud y gwaith trwsio hwnnw.

(3) Mewn achos o'r fath, caiff y tribiwnlys wneud gorchymyn interim—

(a) sy'n pennu'r gwaith trwsio y mae'n rhaid ei wneud ac o fewn pa amser y mae'n rhaid ei wneud, a

(b) sy'n gohirio'r achos ar y cais am unrhyw gyfnod a bennir yn y gorchymyn interim sy'n rhesymol ym marn y tribiwnlys i alluogi i'r gwaith trwsio gael ei wneud.

(4) Os bydd y tribiwnlys yn gwneud gorchymyn interim o dan is-baragraff (3), rhaid iddo beidio â gwneud penderfyniad o dan is-baragraff (1)(a) oni bai ei fod wedi ei fodloni bod y cyfnod penodedig wedi dod i ben heb i'r gwaith trwsio gael ei wneud.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 40 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 64(2)**

**I2** Atod. 2 para. 40 mewn grym ar 1.10.2014 gan O.S. 2014/11, **ergl. 3(1)(d)** (ynghyd ag ergl. 4)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, Paragraff 40.